# SWYDDOGOL

| GWYBODAETH POLISI | |
|---|---|
| Teitl | Polisi DNA Fetio a Dileu Biometrig |
| Fersiwn | V2.2 |

| PERCHNOGAETH POLISI | |
|---|---|
| Noddwr Polisi | Troseddu ACC |
| Perchennog Polisi | Rheolwr Cymorth Gwyddonol, Uned Cymorth Gwyddonol |
| Awdur Polisi | Rheolwr Gwasanaethau Fforensig, Uned Cymorth Gwyddonol |

Mae Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau gan y cyhoedd a staff ynghylch cynnwys a gweithrediad y polisi hwn. Os oes gennych unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r polisi hwn, ysgrifennwch at: **IUned Llywodraethu Gwybodaeth Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig 2il Lawr, 3 Sgwâr Callaghan Caerdydd, CF10 5BT** neu e-bostiwch: **FOI@btp.pnn.police.uk**

## Pwrpas y Polisi

Mae Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig wedi ymrwymo i sicrhau cywirdeb samplau fforensig er mwyn gwneud y defnydd gorau o dystiolaeth.

Mae'r polisi hwn yn esbonio'r broses lle mae Swyddogion Heddlu, Cwnstabliaid Arbennig a Staff dynodedig yr Heddlu yn cymryd ac yn cadw DNA ac olion bysedd, a'r defnydd wedyn o ddeunydd biometreg i sicrhau cywirdeb samplau fforensig yn y gadwyn dystiolaeth.

Mae'r polisi hwn yn sicrhau bod BTP yn gweithredu'n unol â safonau a fabwysiadwyd gan Heddluoedd y Swyddfa Gartref.

Nod y polisi hwn yw cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data - mewn perthynas â rheoli data perthnasol a chywir.

## I bwy mae'r polisi hwn yn berthnasol

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i Swyddogion Heddlu gan gynnwys Swyddogion Heddlu sydd wedi trosglwyddo a Chwnstabliaid Arbennig, yn ogystal â rolau penodol Staff yr Heddlu - Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, Swyddogion Cadw Dynodedig a Staff SSU.

O'r rolau a nodwyd, mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n rhan-amser, sy'n rhannu swydd neu sydd ar gontract tymor penodol a'r rhai ar brawf. Mae cyflogeion ar secondiad allan o'r BTP ac i mewn iddo hefyd wedi'u cynnwys yng nghwmpas y polisi.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

## Egwyddorion

Mae'r polisi hwn yn dilyn argymhelliad gan Fwrdd Cynghori'r Heddlu ar gyfer Cymru a Lloegr a argymhellodd y dylid gwneud gwiriadau fetio biometreg ar addasrwydd ymgeisydd i ymuno â gwasanaeth yr Heddlu er mwyn gwella cywirdeb samplau a gymerir mewn lleoliadau troseddau. Bydd samplau DNA ac olion bysedd gan ddarpar Swyddogion Heddlu, Cwnstabliaid Arbennig a

PCSOs cyn cynnig diamod o gyflogaeth yn cael eu caffael a'u chwilio ar hap.Bydd hyn yn rhan o'r broses fetio.

Yn ogystal, bydd DNA ac Olion Bysedd cyflogai'n cael eu llwytho i'r cronfeydd data biometreg priodol i'w chwilio yn ôl lleoliadau troseddau at ddibenion nodi digwyddiadau halogi.

## Monitro ac Adolygu

Mae tîm yr Uned Cymorth Gwyddonol yn gyfrifol am fonitro ac adolygu'r polisi.

Bydd y polisi hwn yn destun adolygu rheolaidd ac mae BTP yn cadw'r hawl i newid y weithdrefn o bryd i'w gilydd yn unol ag unrhyw ofynion y gyfraith neu arferion cyflogaeth da.

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob 3 blynedd.  Os oes lefelau uchel o ddiffyg cydymffurfio â'r polisi hwn cyn yr adolygiad ffurfiol, eir i'r afael â'r rhain trwy broses archwilio fewnol.